# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Mehefin 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5665

# 214

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)

Dechreuodd yr eitem am 14.26

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf.

### Pwynt o Drefn

Dechreuodd yr eitem am 15.08

Cododd David Rees bwynt o drefn ynghylch Aelod o Blaid Brexit yn galw 'celwyddgi' o'i sedd yn ystod un o atebion y Cwnsler Cyffredinol i gwestiwn. Diolchodd y Llywydd i'r Aelod am roi cyfle iddi ystyried y defnydd diweddar o iaith yn y Siambr, gan gynnwys cyhuddiad bod Aelod o Blaid Cymru wedi defnyddio yr un ymadrodd yn erbyn Aelod o Blaid Brexit yr wythnos diwethaf. Dywedodd y Llywydd fod gormod o Aelodau yn amharchus tuag at Aelodau eraill ac nad yw am dreulio ei holl amser yn plismona'r defnydd o iaith gan Aelodau yn y lle hwn. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Llywydd

y dylent ymddwyn yn gwrtais yn eu trafodion, ac na fyddai cyhuddiadau o 'gelwyddgi' ac iaith amharchus yn cael eu goddef o hyn ymlaen.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.10

Gofyn i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

**Mick Antoniw (Pontypridd)** :A wnaiff y Dirprwy Weinidog ddatganiad mewn ymateb i'r cyhoeddiad bod nifer o ddinasyddion yng Nghymru yn debygol o golli eu hawl i gael trwydded deledu am ddim?

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yng ngoleuni adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cymreig, sy'n nodi y dylai toll teithwyr awyr gael ei datganoli'n llawn i Gymru, a wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diddymu neu ostwng y gyfradd os trosglwyddir y pŵer i Gymru?

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)** : A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn ymateb i'r cyhoeddiad bod Quinn Radiators wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.46

Gwnaeth **Jayne Bryant** ddatganiad am Wythnos Gofalwyr.

Gwnaeth **Mike Hedges** ddatganiad am y gwaith sy'n cael ei wneud i goffáu Daniel James (Gwyrosydd).

Gwnaeth **Bethan Sayed** ddatganiad am Eid/Ramadan.

## Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 15.51

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitemau hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Yn unol â Rheolau Sefydlog 12.24 a 12.40, cafodd y cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau eu grwpio ar gyfer eu trafod a phleidleisio arnynt.

NDM7072 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mark Reckless (Plaid Brexit) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

NDM7073 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mandy Jones (Plaid Brexit) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

NDM7074 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Caroline Jones (Plaid Brexit) yn aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

NDM7075 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

a) David Rowlands (Plaid Brexit) yn aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad; a

b) Caroline Jones (Plaid Brexit) yn aelod amgen o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 0 | 12 |

**Oherwydd y cafodd y cynigion eu cefnogi gan ddau draean o'r Aelodau a oedd yn pleidleisio, derbyniwyd y cynigion.**

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Gweithgarwch Corfforol Ymhlith Plant a Phobl Ifanc

Dechreuodd yr eitem am 15.51

NDM7061 Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl Plaid Cymru - Dewisiadau amgen i Ffordd Liniaru'r M4

Dechreuodd yr eitem am 16.55

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7066** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw am i'r buddsoddiad gwreiddiol a glustnodwyd ar gyfer cynnig ffordd liniaru'r M4, ac a wrthodwyd gan Lywodraeth Cymru, gael ei glustnodi o'r newydd tuag at ddatblygiad cyflym gweledigaeth hirdymor ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth integredig gwyrdd a chynaliadwy yng Nghymru, sy'n cynnwys rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â phroblemau tagfeydd o amgylch Casnewydd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn chwarae rhan ganolog wrth lywio gwaith cynllunio seilwaith cenedlaethol strategol a hirdymor.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 28 | 38 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 -** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi'r canlynol yn ei le:

1. Yn nodi'r penderfyniad a'r datganiad llafar a wnaed gan Brif Weinidog Cymru ddydd Mawrth 4 Mehefin ynghylch prosiect coridor yr M4 o amgylch Casnewydd.

2. Yn nodi'r camau arfaethedig nesaf fel yr amlinellwyd gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a Chomisiwn arbenigol i'w arwain gan yr Arglwydd Terry Burns.

3. Yn cydnabod y problemau sylweddol o ran tagfeydd ar rwydwaith yr M4 ger Twnnelau Brynglas a'u heffaith ar Gasnewydd a'r economi ehangach.

4. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac ariannu atebion cynaliadwy ac effeithiol i broblemau tagfeydd fel rhan o system drafnidiaeth integredig, aml-ddull a charbon isel.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 20 | 39 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu pwynt 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 9 | 38 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth yr £114 miliwn o arian trethdalwyr Cymru sydd wedi'i wastraffu ar ddatblygu cynigion ffordd liniaru'r M4.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 20 | 39 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 4 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu ymhellach at fethiant un Llywodraeth Lafur ar ôl y llall yng Nghymru i ddatrys tagfeydd ar yr M4.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 20 | 39 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 5 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro ar frys beth yw ei chynlluniau yn y dyfodol ar gyfer datrys y tagfeydd ar yr M4 o amgylch Casnewydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 19 | 37 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7066 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn chwarae rhan ganolog wrth lywio gwaith cynllunio seilwaith cenedlaethol strategol a hirdymor.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 6 | 25 | 38 |

**Gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Lleihau Gwastraff Plastig

Dechreuodd yr eitem am 17.46

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7065** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y pwysigrwydd cynyddol y mae'r cyhoedd yng Nghymru yn ei roi ar leihau gwastraff plastig.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau cadwyni cyflenwi yng Nghymru er mwyn atal 'llygredd amgylcheddol' rhag cael ei allforio i drydydd gwledydd a chadw ymddiriedaeth y cyhoedd.

3. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau i gyflwyno cynllun dychwelyd blaendal ar gyfer cynwysyddion diodydd.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU a chenhedloedd datganoledig eraill i gymryd camau i helpu i ddileu gwastraff plastig y gellir ei osgoi drwy hefyd:

a) gwahardd cyflenwi gwellt plastig, gan eithrio unigolion ag anableddau;

b) atal y cyflenwad o ffyn cotwm â choesau plastig, ac eithrio at ddefnydd gwyddonol; ac

c) gwahardd trowyr diodydd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 26 | 38 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Dileu popeth a rhoi'r canlynol yn ei le:

1. Yn cydnabod y pwysigrwydd cynyddol y mae'r cyhoedd yng Nghymru yn ei roi ar leihau gwastraff plastig.

2.Yn cydnabod bod Cymru ar flaen y gad yn y DU gyda'r cyfraddau ailgylchu gwastraff trefol presennol yn 62.7 y cant.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau cadwyni cyflenwi yng Nghymru er mwyn atal 'llygredd amgylcheddol' rhag cael ei allforio i drydydd gwledydd a chadw ymddiriedaeth y cyhoedd.

4. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau'r cyflenwad o boteli plastig untro yng Nghymru, gan gynnwys menter Cenedl Ail-lenwi.

5. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar gynigion ar gyfer cyflwyno cynllun dychwelyd blaendal ar gyfer cynwysyddion diodydd ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar sut y gall gyflwyno cynllun o'r fath.

6. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyfyngu ar wellt yfed plastig a gwahardd trowyr diodydd plastig a ffyn cotwm yng Nghymru, yn unol â chyfarwyddyd yr Undeb Ewropeaidd ar blastig untro, ynghyd â chyllyll a ffyrc a phlatiau plastig; cynhwysyddion bwyd a diod polystyren ehangedig, a ffyn balwnau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 17 | 38 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio ei phwerau i ddiweddaru canllawiau cynllunio gwyliau a thrwyddedu er mwyn cael gwared â phlastigau untro.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 0 | 38 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am wahardd deunydd pacio bwyd plastig na ellir ei ailgylchu neu nad yw'n fioddiraddiadwy, a fyddai'n cynnwys deunydd pacio polystyren a ffilm plastig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 11 | 0 | 38 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7065 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y pwysigrwydd cynyddol y mae'r cyhoedd yng Nghymru yn ei roi ar leihau gwastraff plastig.

2.Yn cydnabod bod Cymru ar flaen y gad yn y DU gyda'r cyfraddau ailgylchu gwastraff trefol presennol yn 62.7 y cant.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau cadwyni cyflenwi yng Nghymru er mwyn atal 'llygredd amgylcheddol' rhag cael ei allforio i drydydd gwledydd a chadw ymddiriedaeth y cyhoedd.

4. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau'r cyflenwad o boteli plastig untro yng Nghymru, gan gynnwys menter Cenedl Ail-lenwi.

5. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar gynigion ar gyfer cyflwyno cynllun dychwelyd blaendal ar gyfer cynwysyddion diodydd ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar sut y gall gyflwyno cynllun o'r fath.

6. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyfyngu ar wellt yfed plastig a gwahardd trowyr diodydd plastig a ffyn cotwm yng Nghymru, yn unol â chyfarwyddyd yr Undeb Ewropeaidd ar blastig untro, ynghyd â chyllyll a ffyrc a phlatiau plastig; cynhwysyddion bwyd a diod polystyren ehangedig, a ffyn balwnau.

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio ei phwerau i ddiweddaru canllawiau cynllunio gwyliau a thrwyddedu er mwyn cael gwared â phlastigau untro.

8. Yn galw am wahardd deunydd pacio bwyd plastig na ellir ei ailgylchu neu nad yw'n fioddiraddiadwy, a fyddai'n cynnwys deunydd pacio polystyren a ffilm plastig.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 5 | 38 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.37

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.44

**NDM7064** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Mynd i'r afael â'r cynnydd mewn sgamiau yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.02

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Mehefin 2019**